

Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol

21 Chwefror 2019

Ansawdd Aer

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch ansawdd aer. Pwysleisiwyd y ffrwd waith sy'n ymwneud â Thystiolaeth Ansawdd Aer, Gwella ac Arloesi, a'r uchelgais i ddatblygu Canolfan Dystiolaeth Cymru Gyfan ar gyfer Ansawdd Aer sy'n darparu tystiolaeth gadarn a chymorth. Trafodwyd prosiect peilot Cwm Taf yn gryno a fydd yn ystyried data ansawdd aer yn unol â'r data economaidd-gymdeithasol ac iechyd sy'n rhoi cyd-destun ehangach i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r risgiau a bydd yn bwriadu nodi ymyriadau integredig.

Bwriedir cyhoeddi Cynllun Aer Glân Cymru yn nes ymlaen eleni. Bydd yn ystyried pob agwedd ar wella ansawdd aer gan gynnwys deddfwriaeth a bydd yn canolbwyntio ar grwpiau agored i niwed ac ardaloedd difreintiedig. Bydd deddfwriaeth bosibl hefyd yn cael ei nodi i lenwi bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae gwefan newydd – Ansawdd Aer Cymru – hefyd wedi'i chreu i godi ymwybyddiaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am raglen y Ddraig Ifanc.

Roedd y Bwrdd hefyd wedi trafod yn gryno'r terfynau cyflymder 20 mya, ceir trydan a sut y maent yn effeithio cyn lleied ar wella ansawdd aer o gymharu ag injan tanio mewnol, lleihau traffig fel elfen allweddol o wella ansawdd aer ac annog mwy o gerdded a beicio, ac arolwg Doeth am Iechyd. Mae'r arolwg hwn y gall y cyhoedd gymryd rhan ynddo, yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd ar fodiwlau craidd ac ychwanegol, gan gynnwys arferion teithio. Mae 28,000 yn cymryd rhan yn yr arolwg ar hyn o bryd, gyda'r nod o gyrraedd 200,000 yn y pen draw.

Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog ei hunan i'r Bwrdd ac esboniodd rai o'i flaenoriaethau cynnar. Mynegodd ei bryder ynghylch ariannu amrywiaeth eang o gynlluniau drwy grantiau, a bod gwell ganddo ganolbwyntio ar ariannu cynlluniau sy'n uchelgeisiol a fydd yn effeithio'n fwy ar gerdded a beicio. Roedd y Bwrdd yn cytuno â hyn.

Er ei fod am wobrwyo uchelgais, pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog ei fod hefyd am gefnogi'r awdurdodau lleol hynny sydd ar ei hôl hi i fod yn uchelgeisiol. Bydd cyfarfod â swyddogion awdurdodau lleol ym mis Mawrth yn trafod y rhwystrau rhag gweithredu a pha gymorth sydd ei angen. Nododd bod ystyried ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol yn hanfodol i wella'r rownd nesaf o Fapiau Rhwydwaith Integredig a'i fod yn edrych ar ddarparu cymorth arbenigol i awdurdodau lleol ar sut y mae gwneud hynny.

Pwysleisiodd y Bwrdd feysydd i'r Dirprwy Weinidog ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys sut y gall Polisi Cynllunio Cymru wneud gwahaniaeth ymarferol, gan newid yn sylweddol y ffordd yr ydym yn ystyried teithio llesol ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, sut y bydd teithio llesol yn cael ei adlewyrchu yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r cydbwysedd rhwng cyllid cyfalaf a refeniw. Trafodwyd hefyd y dylid sefydlu isafswm parhaol o ran cyllid ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy er mwyn sicrhau momentwm. Roedd y Bwrdd hefyd wedi trafod gweithio ar draws adrannau, gan nodi'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn un o'r meysydd lle y mae angen mwy o integreiddio, seilwaith gwyrdd a monitro teithio llesol.

Diweddarau'r Canllawiau Dylunio a Chyflenwi a Lleoliadau Penodedig

Rhodddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar yr adolygiad o'r Canllawiau Cyflenwi a fydd yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Canllawiau Dylunio. Mae Sustrans Cymru yn ymgymryd â'r gwaith hwn, gyda'r nod o gyhoeddi'r ddwy ddogfen ddrafft yn destun ymgynghoriad yn hwyrach eleni.

Diogelwch ar y Ffyrdd

Trafododd y Dirprwy Weinidog y posibilrwydd o newid yr ymagwedd tuag at y polisi diogelwch ar y ffyrdd. Yn hytrach na chanolbwyntio ar leihau damweiniau, dylid rhoi mwy o bwyslais ar annog teithio llesol. Trafododd y Bwrdd y diffiniad o ddiogelwch ar y ffyrdd, sef bod yn rhydd o risg neu niwed, a pha un ai y dylai targedau fod yn seiliedig ar gyfraddau yn hytrach na ffigurau absoliwt. Nodwyd yr angen i ailhyfforddi peirianwyr, ynghyd ag edrych ar y dull systemau diogel o reoli diogelwch ar y ffyrdd.

Ni chododd y Bwrdd unrhyw bryder ynghylch ailffocysu diogelwch ar y ffyrdd ar deithio llesol. Caiff ymyriadau hyfforddi cerdded a beicio eu hariannu ar hyn o bryd drwy grant Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd, ond wrth ddefnyddio cyllid teithio llesol i'w hariannu, gellid effeithio'n gadarnhaol ar y ffordd y caiff yr hyfforddiant ei weld a sicrhau bod y cyllid hwn ar gael ar gyfer pethau eraill hefyd.

Cynllun Gweithredu'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Deithio Llesol i'r Ysgol

Mae'r broses o ddilysu'r arolwg bellach wedi dod i ben ac mae o blaid y fethodoleg. Bwriedir cyflwyno'r arolwg hwn i 3 awdurdod lleol cyn cael ei gyflwyno ar draws Cymru ym mis Medi 2019. Bydd yr arolwg 'llaw i fyny' yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Medi bob blwyddyn a gallai disodli data presennol yr Arolwg Cenedlaethol ar deithio llesol, yn y pen draw.

Y Gynhadledd Teithio Llesol

Bydd y Gynhadledd Teithio Llesol yn cael ei chynnal bellach ar 4 Gorffennaf 2019 gan fod cynhadledd arall yn cael ei chynnal ar y dyddiad gwreiddiol. Bydd y Gynhadledd yn cael ei chynnal yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r rhaglen.

Unrhyw Fater Arall

Disgwylir i'r cynllun Beicio i'r Gwaith gael ei gymeradwyo i godi'r pris prynu. Bydd y newidiadau yn golygu y bydd cyflogwyr yn gallu pennu eu prisiau eu hunain. Bydd hyn yn galluogi cyfranogwyr i brynu e-feiciau, beiciau sydd wedi'u haddasu a beiciau drutach drwy'r cynllun. Mae'r Cynghrair Beicio i'r Gwaith wedi datblygu cynllun cyfathrebu i sicrhau bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r newidiadau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Mehefin 2019